



Cylchlythyr Rhagfyr 2017

Croeso! Dyma ddiweddariad i chi o'r hyn y mae plant Cylch Meithrin y Felinheli wedi bod yn wneud dros dymor yr hydref, a'r hyn sydd o'u blaenau y tymor nesaf!

Mae wedi bod yn dymor prysur iawn i ni, gan ganolbwyntio ar themâu amrywiol gan gynnwys *Fi fy hun*, lle'r oedd y plant yn creu darlun ohonynt eu hunain wrth edrych mewn drych i weld lliw eu gwallt a'u llygaid ac ati. Yn ystod mis Hydref buom yn brysur yn casglu dail ac archwilio wrth ddarganfod gwahanol bethau yn y goedwig. Cafodd dathliadau Diwali eu cynnal ar 18 Hydref, a bu'r plant yn brysur yn addurno bisgedi a chreu lluniau lliwiau llachar. Thema mis Tachwedd oedd *Pobl sy'n helpu*, gan ddysgu am y gwahanol bobl sy'n ein helpu – o'r heddlu i ddiffoddwyr tân.

Dros y tymor nesaf byddwn yn astudio'r tywydd, tymhorau a theganau. Byddwn hefyd yn dathlu Blwyddyn Newydd Tsieineaidd, a bydd y gwersi ioga i blant, sydd wedi cychwyn yn barod, yn parhau! Bydd sesiynau Cegin Fwd hefyd yn ail ddechrau – a bydd llythyr yn eich hysbysu o'r dyddiadau yn cael ei ddsbarthu'n fuan.



Pwyllgor

Mae'r Cylch yn cael ei weinyddu gan bwyllgor gwirfoddol, sy'n cyfarfod tua dwywaith y tymor i drafod materion gan gynnwys staffio, cyllid, grantiau, materion gweinyddol, adroddiadau perfformiad a mwy. Heb y Pwyllgor ni fyddai modd i'r Cylch weithredu. Rydym yn chwilio am aelodau newydd i ymuno â ni ar y Pwyllgor, er mwyn rhannu'r baich a helpu i sicrhau bod y Cylch yn cael ei redeg yn effeithiol ac yn darparu'r gwasanaeth y mae ar rieni ei angen. Mae hefyd yn ffordd wych i ddod i adnabod rhieni eraill yn y pentref! I ymuno cysylltwch â post@cylochmeithrinfelinheli.org.

Aelodau'r Pwyllgor

- Siwan Haf (Cadeirydd)
- Elen Gareth (Ysgrifenyddes)
- Bethan Jones (Trysorydd)
- Ceri Rhiannon (Person Cofrestredig)
- Catrin Elis (Person Cofrestredig)

Codi arian

Mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol mai elusen ydi'r Cylch, ac er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig y gwasanaeth hwn i drigolion y Felinheli mae'n hanfodol ein bod yn cynnal gweithgareddau er mwyn casglu arian. Mae'r arian sy'n cael ei gasglu yn cyfrannu at amrywiaeth o gostau, gan gynnwys costau staff, adnoddau a mwy!

Sut allwch chi ein helpu?

- Cefnogi'r gweithgareddau
Mae nifer o weithgareddau hwyl yn cael eu trefnu yn gyson trwy'r flwyddyn mewn ymgais i godi arian – holwch yn y Caban am fwy o wybodaeth
- Ymuno â'r Pwyllgor Codi Arian
Grŵp anffurfiol sy'n ymgynnull unwaith neu ddwy yn ystod y tymor i drafod a threfnu digwyddiadau – croeso i bawb!

Diwrnod agored

Bydd diwrnod agored yn cael ei gynnal ym mis Ionawr ar gyfer rhieni sy'n awyddus i gofrestru eu plant i gychwyn sesiynau Cylch Meithrin cyn diwedd y flwyddyn ysgol. Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu am y Cylch a'r broses gofrestru yn ystod y dyddiau agored – ond cofiwch fod croeso i chi gofrestru eich plentyn unrhyw bryd – holwch yn y Caban am ffurflen gofrestru! Bydd diwrnod agored arall yn cael ei gynnal yn yr haf ar gyfer plant fydd yn cychwyn o fis Medi 2018 ymlaen. **Mae'r Cylch yn gweithredu polisi 'Cyntaf i'r Felin' – felly cofrestrwch yn gynnar i sicrhau lle i'ch plentyn!**

Clwb 99

Am £2 y mis cewch gyfle i ennill £50 bob mis! Os nad ydych wedi cael eich rhif eto holwch yn y Caban neu ar Facebook.

Staff y Cylch

Rhag ofn nad ydych yn ein adnabod ni gyd eto, staff y Cylch ydi:

- Rhian Jones (Arweinydd)
- Sera Jones (Arweinydd)
- Susan Williams (Cynorthwydd)
- Nia Jones (Cynorthwydd)

Fe fydd aelod arall yn ymuno â ni ym mis Ionawr hefyd – manylion i ddilyn!

Llawlyfr Rhieni

Mae Llawlyfr Rhieni newydd ar gael ar ein gwefan gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am holl weithgareddau, polisiâu a'n datganiad o fwriad. Mae'n hollbwysig bod rhieni yn bwrw golwg ar y llyfryn hwn!



**Ac i gloi – Nadolig
Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i chi gyd,
edrychwn ymlaen at
fwy o antur a hwyl
gyda'r plant yn 2018!**



07592 673200 (Cylch)
01248 670748 (Ysgol)



post@cylchmeithrinfelinheli.org



www.cylchmeithrinfelinheli.org



Cylch Meithrin Y Felinheli